| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **24 Ionawr 2017** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Bobby Feeley / Phil Gilroy** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Phil Gilroy** |
| **Teitl:** | **Adroddiad ar y Dewisiadau ar gyfer y Defnydd o Gartref Gofal Preswyl Awelon yn y dyfodol** |

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn grynodeb o'r adroddiad ymarferoldeb ynglŷn â'r opsiynau ar gyfer y defnydd o Gartref Gofal Preswyl Awelon, gan ddisodli'r cyfleusterau presennol gyda darpariaeth well ac ychwanegol a fydd yn diwallu dyheadau pobl hŷn am ragor o annibyniaeth mewn amgylchedd diogel a chefnogol fel y nodwyd mewn tystiolaeth o nifer o astudiaethau ymchwil.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu'r wybodaeth a gasglwyd yn yr Adroddiad Dichonoldeb a phenderfyniadau wedi hynny yn y Grŵp Tasg a Gorffen a'r Pwyllgor Archwilio i'r Cabinet er mwyn i benderfyniad gael ei wneud ar ddyfodol y gwasanaethau i'w darparu ar safle Awelon. Er gwybodaeth, y dewisiadau y gofynnodd y Cabinet iddynt eu hystyried ar gyfer y safle oedd:

2.2 (Y dewis a ffafrir gan y Cabinet): Bod y cyngor yn sefydlu partneriaeth gyda pherchennog Llys Awelon (y blociau gofal ychwanegol a adeiladwyd gan Grŵp Cynefin ar ran o safle Awelon) er mwyn datblygu fflatiau Gofal Ychwanegol pellach ar y safle, gan ddisodli'r ddarpariaeth gymunedol a phreswyl bresennol.

2.3 Gweithio mewn partneriaeth gyda landlord cymdeithasol cofrestredig, gwasanaethau iechyd a'r trydydd sector er mwyn datblygu amrywiaeth o wasanaethau, gan drosglwyddo hanner yr adeilad i ddatblygu fflatiau gofal ychwanegol, o bosib fel estyniad i Lys Awelon, wrth ddefnyddio'r gweddill o bosib fel uned breswyl fechan a allai gael ei defnyddio i gwrdd â gofynion gofal seibiant.

2.4 Yn y ddau achos, roedd y penderfyniad yn nodi na fyddai'n rhaid i unrhyw breswylydd presennol adael/symud os nad ydynt eisiau, a thra gellir parhau i ddiwallu eu hanghenion yn y ddarpariaeth breswyl.

2.5 Nid yw trydydd argymhelliad i archwilio datblygiad posibl cartref gofal nyrsio ar safleoedd eraill yn Rhuthun wedi ei gynnwys gan nad oes gwybodaeth wedi cael ei datblygu hyd yma.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n cadarnhau eu bod wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les fel rhan o'u hystyriaethau.

3.2 Bod y Cabinet yn cytuno fod Opsiynau 1 a 3b Astudiaeth Ddichonoldeb Grŵp Cynefin yn ddewisiadau ymarferol am y rhesymau a nodir yn atodiadau 1 a 5 yn y drefn honno.

3.3 Bod y Cabinet yn cytuno bod trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng Aelodau lleol, Swyddogion, Grŵp Cynefin a phwyllgor Canolfan Awelon i weithio drwy Opsiynau 2a, 2b a 3a i symud ymlaen gyda'r cyfluniad gorau ar gyfer y safle sy'n diwallu anghenion pob parti ac yn golygu'r amhariad lleiaf ar gyfer trigolion/ tenantiaid presennol.

*(Ar bwynt addas, byddai hyn yn galluogi clirio Safle Awelon a dechrau ar y gwaith ar yr estyniad. Roedd y grŵp tasg a gorffen yn credu y byddai cynyddu'r nifer yr unedau Gofal Ychwanegol a ddatblygir (fel y nodir yn Newis 2a) yn darparu'r trefniadau gorau ar gyfer darparu Tai Gofal Ychwanegol gyda Chyfleusterau Cymunedol ar safle Awelon. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen cynnal trafodaethau pellach gyda phwyllgor Canolfan Awelon i sicrhau y gall y cynllun terfynol ddarparu'r gwasanaethau cymunedol y maent eisoes yn eu darparu.*

*Mae hyn yn bodloni'r dewis a ffafrir gan y Cabinet yn dilyn trafodaeth ym mis Mai 2016 (gweler 2.2 uchod) a bydd yn sicrhau hyd at 35 o fflatiau Gofal Ychwanegol eraill ar y safle tra'n galluogi'r preswylwyr sydd eisoes yn derbyn gwasanaethau gofal preswyl i barhau i aros ar y safle drwy gydol y cyfnod datblygu os ydynt yn dymuno hynny, ynghyd â pharhau i ddarparu cyfleusterau cymunedol i hyrwyddo annibyniaeth a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol.)*

## 4 Manylion yr Adroddiad

4.1 Ar 24 Mai 2016, cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet yn cyflwyno canlyniad yr ymarfer ymgynghori mewn perthynas ag allanoli darpariaeth fewnol. O ran y gwasanaeth a ddarperir yng Nghanolfan Ofal Awelon, gofynnodd y Cabinet bod swyddogion yn archwilio'r dewisiadau a gyflwynwyd yn fanwl, gan gynnwys costau cymharol, ansawdd gofal, dadansoddiad darpariaeth y Gymraeg rhwng y gwasanaeth presennol a phob un o'r dewisiadau.

4.2 Yn ogystal â hyn, nododd y Cabinet y dylai'r adroddiad dybio y dylid cynnwys cyfleusterau cymunedol ar y safle sydd o leiaf cystal â'r rhai sy'n cael eu cynnig yng Nghanolfan Awelon, y ganolfan gymunedol sydd eisoes wedi'i lleoli ar y safle.

4.3 Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a nodwyd yw Grŵp Cynefin sy'n Bartneriaid i CSDd yng nghynllun Tai Gofal Ychwanegol Llys Awelon ar safle Awelon ac mae'r cynllun a Chartref Preswyl Awelon yn rhannu nifer o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys yr ystafell fwyta a'r gegin.

4.4 O ran y ddarpariaeth Gymraeg mae Grŵp Cynefin wedi mabwysiadu ac yn gweithredu polisi iaith Gymraeg, ac yn gallu darparu pob agwedd o'u gwasanaethau yn ddwyieithog, a byddai'r ymagwedd honno'n cael ei gweithredu'n drylwyr i'r gwasanaethau tai, gofal a chefnogaeth wyneb yn wyneb yn y cynllun ynghyd ag agweddau eraill fel arwyddion a llenyddiaeth.

4.5 Yn seiliedig ar friff CSDd a amlinellwyd uchod, comisiynodd Grŵp Cynefin Dîm Dylunio sy'n cynrychioli'r disgyblaethau proffesiynol perthnasol, i gyflawni'r gwaith dichonoldeb ymarferol. Roedd y Tîm yn cynnwys y cwmnïau canlynol, gyda phrofiad mewn cynlluniau mawr a chymhleth, ac yn gyfarwydd â darpariaeth tai/gofal:

- Ainsley Gommon – penseiri
- Carpenter Davies – ymgynghorwyr peirianneg trydanol a pheirianyddol
- Datrys – ymgynghorwyr peirianneg strwythurol
- Metrics – ymgynghorwyr cost a syrfewyr meintiau

Mae eu cyfraniad cyfunol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad cynhwysfawr ynghlwm (atodiad 6) sy'n cael ei gyflwyno gan Ainsley Gommon. Roedd y gwaith dichonoldeb yn cynnwys ymchwil, archwiliadau ac arolygon o'r safle, yr adeiladau presennol a'r gwasanaethau, fel y trafodwyd yn fanwl yn yr adroddiad.

4.6 Y briff i'r Tîm Dylunio oedd y dylid parchu ysbryd penderfyniadau'r Cabinet ac ystyried eu dymuniad o ddifrif, os yn bosibl, i gyflwyno cynigion sy'n tybio y gall preswylwyr gofal preswyl ynghyd â'r rhai yn Llys Awelon (y blociau gofal ychwanegol newydd) aros ar y safle ac yn gallu aros yno'n ddiogel os ydynt yn dymuno hynny, tra bo'r gwaith adeiladu yn digwydd.

4.7 Bydd gwneud y gwaith o amgylch y trigolion yn golygu proses gymhleth o wneud y gwaith fesul cam, a thrafodir goblygiadau gwneud hynny yn ymarferol o ran cost ac yn cael eu harddangos yn y gwahanol ddewisiadau ailddatblygu a gyflwynwyd gan y Tîm o ymgynghorwyr yn yr adroddiad dichonoldeb. Cyflwynir y sefyllfa gymaradwy hefyd, os na fydd trigolion yn dymuno aros ac y gellir clirio ac ailddatblygu'r adeiladau mewn un cam.

4.8 Mae'r adroddiad llawn ynghlwm yn atodiad 6 ac mae wedi cael ei strwythuro i alluogi'r dewisiadau i gael eu hystyried yn rhesymegol. Mae'r 3 adran gyntaf yn cynnig cyd-destun ac yn dadansoddi'r safle ac adeiladau presennol. Mae'r dadansoddiad safle yn ystyried materion fel agosrwydd a chymeriad a lefelau perthynol ac uchder eiddo cyfagos, mynediad a logisteg safle yn ystod y gwaith adeiladu (ar gyfer trigolion ac ar gyfer contractwyr), argaeledd gwasanaethau, a lleoliad. Mae'r dadansoddiad adeiladau i bob pwrpas yn 'MOT' o'r adeiladau presennol i asesu eu haddasrwydd ar gyfer cadw a thrawsnewid i wasanaethu anghenion gofal preswyl a gofal ychwanegol y dyfodol.

4.9 Tra bod penderfyniadau'r Cabinet yn amlinellu 2 opsiwn ar gyfer y safle, mae'r adroddiad yn nodi 5 trywydd posibl ar gyfer ailddatblygu Awelon, pob un gyda'i set o dybiaethau o ran gwaith adeiladu a lles trigolion a goblygiadau o ran cost. Caiff y rhain eu trafod yn unigol ac yn fanwl yn adrannau 4 -6 yr adroddiad llawn, gyda chynlluniau llawr a chynlluniau dangosol a chostau ar gyfer pob un ohonynt. Yna, rhoddir crynodeb o'r 5 dewis a chymhariaeth ohonynt ar ddiwedd ar adroddiad, ac ôl ystyried y goblygiadau o ran dyluniad yn adran 7. At ddibenion yr adroddiad hwn, rhoddir crynodeb o bob dewis fel atodiadau unigol 1 - 5.

4.10 Yn gyffredinol, mae'r costau adeiladu a ragwelir ar gyfer pob opsiwn yn cynyddu mewn perthynas â maint y cynllun sy'n cael ei ystyried. Er enghraifft, Dewis 2a sydd ar arwynebedd llawr mwyaf, tra'i fod yn darparu'r nifer uchaf o unedau newydd o blith yr holl ddewisiadau sy'n cael eu hystyried ac felly disgwylir mai hwn fodd yr un mwyaf costus yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae angen gwerthuso ansawdd y llety newydd a ddarperir a'r gwerth am arian yn ofalus wrth gymharu Dewis 1 (gyda gwaith adnewyddu rhannol) a'r adeiladau newydd yn Newisiadau 2a, 2b a 3. Mae angen ystyried cymhlethdod y broses o weithio fesul cam, yn ogystal â goblygiadau iechyd a diogelwch y dewisiadau sy'n cynnwys trigolion Awelon yn parhau ar y safle. Mae'n

anochel y bydd hyn yn effeithio ar y costau a'r gallu i ddarparu'r prosiect o fewn terfynau amser pendant.

4.11 Mae Grŵp Cynefin wedi ystyried rhinweddau, gwendidau, risgiau a chostau perthynol pob dewis posibl yn ofalus, gan ddwyn i gof trafodaethau a chanfyddiadau'r Tîm o ymgynghorwyr a'u profiad eu hunain o ddarpariaeth pobl hŷn a phrosiectau mawr i adnewyddu a chodi adeiladau newydd dros nifer o flynyddoedd. Mae hyn wedi cynnwys rhoi sylw dyledus i iechyd a diogelwch, gofal a lles trigolion yn ystod y cyfnod adeiladau yn ogystal â'r risgiau ymarferol sylweddol ar gyfer y contractwr a'r gweithlu adeiladau, a'r goblygiadau o ran cost, rheoli rhaglen ac yn gytundebol

4.12 Fel y mae adroddiad y tîm dylunio yn dangos, mae'r holl ddewisiadau'n bosibl ar bapur, am gost. Fodd bynnag, mae Grŵp Cynefin wedi dod i'r casgliad fod y dewis adnewyddu (dewis 1) yn methu ar ormod o'r profion uchod, ac ni fyddent felly'n barod i fwrw ymlaen â'r dewis hwnnw. Byddai Grŵp Cynefin fodd bynnag yn barod i fwrw ymlaen ag unrhyw un o'r dewisiadau eraill, neu unrhyw amrywiadau ohonynt a allai ddeillio o drafodaethau mwy manwl

4.13 Crynodeb o'r dewisiadau

Mae'r tabl isod yn dangos y pwyntiau allweddol ar gyfer pob dewis. Ceir gwybodaeth ychwanegol i gefnogi ystyriaethau Aelodau yn atodiadau 1 -5.

| Dewisiadau a Ystyriwyd: | Dewis 1 | Dewis 2a | Dewis 2b | Dewis 3a | Dewis 3b |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gost a Amcangyfrifir (gan eithrio TAW) | £6,280,000 | £7,125,000 | £6,905,000 | £7,035,000 | £6,659,000 |
| Nifer yr Ystafelloedd Gofal Preswyl | 15 Parhaol (o fewn Awelon) | 8 dros dro | 8 dros dro | 8 dros dro | Dim |
| Nifer y Fflatiau Gofal Ychwanegol a grëwyd i ddechrau | 21 | 31 | 25 | 25 | 29 |
| Nifer y fflatiau Gofal Ychwanegol ar ôl i'r angen am Ofal Preswyl ddod i ben | 42 | 56 | 50 | 50 | 50 |
| Arwynebedd y llawr | 3,683m2 | 4,277m2 | 4,010m2 | 4,010m2 | 4,010m2 |
| Amcangyfrif o gost gymharol fesul metr sgwâr | £1,705/m2 | £1,666/m2 | £1,722/m2 | £1,754/m2 | £1,661/m2 |
| Amcangyfrif o'r amser a gymerir i'w gwblhau mewn wythnosau | Gormod o amrywiaethau ac yn rhy gymhleth i'w amcangyfrif | 122 | 116 | 120 | 82 |
| Argymhellir? | **Na** Oherwydd y risg o addasu hen adeilad, hyd, cymhlethdod y camau ac nid yw'n ddewis hyfyw yn ôl y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Yn ogystal, nid yw'r costau cyfalaf a refeniw yn gynaliadwy ac ni fydd y ddarpariaeth yn diwallu'r galw yn y dyfodol. | **I'w ystyried** | **I'w ystyried** | **I'w ystyried** | **Na** Nid yw'n diwallu'r gofyniad y gall y preswylwyr aros yn Awelon cyn hired ag y bydd angen arnynt heb derfyn amser afrealistig. |

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y penderfyniad yn cyfrannu'n uniongyrchol at dair o flaenoriaethau corfforaethol y cyngor:

i. Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl
ii. Moderneiddio'r Cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid
iii. Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da

## 6 Goblygiadau o ran Cost

6.1 Mae cost yn gysylltiedig ag amser y swyddog i hwyluso'r bartneriaeth a datblygu'r prosiect hwn. Caiff hyn ei gynnwys yn y rolau presennol.

6.2 Bydd methu ag ail-ddarparu'r gwasanaeth yn arwain at gostau parhaus i Sir Ddinbych. Mae cynnal unigolyn mewn Cartref Gofal Preswyl 15 gwely CSDd yn costio isafswm o £760 yr wythnos pan yn llawn, tra bo cynnal unigolion gyda'r un lefel o anghenion yn y Tai Gofal Ychwanegol yn costio £300 yr wythnos, gan dybio angen gofal uchel o 20 awr yr wythnos a chost uned o £15 yr awr.

6.3 Os cytunir ar ddewis 1 yna byddai'n rhesymol i ddisgwyl y bydd y gost gyfalaf i'r Cyngor i adnewyddu'r adeilad presennol, gan dybio bod y gofod yn defnyddio 1/3 o'r adeilad, yn costio oddeutu £2m. Ni fyddai unrhyw un o'r dewisiadau yn achosi cost refeniw i'r Cyngor (er y rhagwelir na fyddai derbyniad cyfalaf ar gyfer y tir).

## 7 Effeithlonrwydd ac Arbedion Refeniw

Fel y nodir uchod, bydd defnyddio Gofal Ychwanegol i ddarparu ar gyfer anghenion gofal 'safonol' yn galluogi'r Cyngor i gyflawni rhai o'r £700,000 o arbedion a nodwyd eisoes. Gan dybio bod 23 o bobl yn derbyn gofal preswyl yn y sector annibynnol am £508 yr wythnos, mae hyn yn ostyngiad mewn gwariant o'i gymharu â chostau presennol Awelon o £200,000. Pe bai'r 23 o unigolion yn derbyn Gofal Ychwanegol yn lle hynny, byddai'r gostyngiad dros £450,000.

## 8 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

8.1 Mae'r Asesiad o Effaith ar Les ynghlwm yn Atodiad 7 ac yn dangos y byddai'r dewis a ffafrir yn cael effaith gadarnhaol ar les dinasyddion Sir Ddinbych.

8.2 Bydd yr effaith ar staff yn Awelon yn cael ei ystyried fel rhan o weithrediad unrhyw gamau gweithredu a gytunir gan y Cabinet.

## 9 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

9.1 Adroddodd y Grŵp Tasg a Gorffen yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 6 Ionawr 2017, gan argymell y dylid symud ymlaen i drafod Dewisiadau 2a, 2b a 3a gyda phartïon perthnasol i sicrhau y gellir cytuno ar y cyfluniad gwasanaeth gorau ar y safle. Cytunodd y Pwyllgor Archwilio ar ddiwygiad i'r argymhelliad i nodi y dylai fod gan y cyfleuster cymunedol newydd yr un arwynebedd llawr a'r Ganolfan Awelon bresennol. Nid yw'r argymhelliad hwn wedi cael ei gynnwys yn benodol gan y gallai'r trafodaethau arwain at drefniant gwell.

9.2 Os yw’r Cabinet yn cytuno â’r argymhelliad, byddai ymgynghoriad pellach gyda’r staff a’r undebau yn unol â pholisi’r Cyngor.

**10 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae’r adroddiad yn nodi costau cyfalaf a goblygiadau eraill y gwahanol ddewisiadau ar wasanaethau. Mae hefyd yn bwysig ystyried unrhyw gyfraniadau sy’n ofynnol gan y cyngor ynghyd â goblygiadau costau refeniw wrth ddatblygu’r argymhelliad ffurfiol. Er nad yw’n brif ffactor, mae’n bwysig bod y penderfyniad yn cefnogi strategaeth cyllideb y gwasanaeth ac yn cynorthwyo i reoli’r pwysau parhaus ar y gyllideb a chyflawni’r arbedion a gytunwyd arnynt.

**11 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

11.1 Bydd y risg o beidio â chytuno ar gynnig yn arwain at ddiffyg gwasanaethau gofal cynaliadwy yn Rhuthun o ystyried oedran a chyflwr adeilad Awelon a’r cyfalaf cyfyngedig i’w adnewyddu.

11.2 Bydd risg o beidio a chyflawni’r arbedion cyllideb o £700,000 a gytunwyd yn flaenorol a bydd yn parhau i gyfrannu at bwysau parhaus ar y gyllideb mewn perthynas â diwallu anghenion gofal pobl hŷn.

**12 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

12.1. Mae Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi'r pŵer i gael gwared ar y tir.

12.2 Adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 1972: Dyletswydd i sicrhau gwelliannau parhaus yn y modd y caiff swyddogaethau eu harfer.